# Bwydo Cynnydd: Rôl Cyrff Cyhoeddus o ran Hyrwyddo Systemau Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru

**22 Mawrth 2024**

**At:** Is-adran Fwyd a Thîm Trechu Tlodi, Llywodraeth Cymru

**Oddi Wrth:** Synnwyr Bwyd Cymru

**Awduron:** Barbora Adlerova, Synnwyr Bwyd Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

**Cyfranwyr:** Gyda diolch i gydlynwyr partneriaethau bwyd, mynychwyr gweithdai cyrff cyhoeddus ac aelodau o'u grwpiau llywio am eu hamser a'u cyfraniadau

**Crynodeb**

Mae'r adroddiad yn ymchwilio i integreiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd i amcanion llesiant cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar su y maent yn cyd-fynd â gweithgareddau ar lawr gwlad. Mae sefydlu partneriaethau bwyd lleol traws-sector wedi bod yn ddatblygiad nodedig, gan feithrin cydweithrediad a chyfranogiad y cyhoedd wrth lunio strategaethau bwyd. Er gwaethaf y cynnydd, mae heriau megis adnoddau prin, cyfyngiadau ar gapasiti, a diffyg gweledigaeth genedlaethol ar gyfer systemau bwyd Cymru yn parhau i fod yn ffactorau sy'n cyfyngu ar ddatblygu systemau bwyd cynaliadwy ymhellach yng Nghymru.

**Negeseuon Allweddol**

**Cynnydd mewn Diddordeb a Chyfranogiad** Mae Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ymgysylltu fwyfwy â materion sy'n ymwneud â systemau bwyd, wedi'u cefnogi gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae sefydlu partneriaethau bwyd traws-sector lleol, sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, yn gam cadarnhaol ac adeiladol tuag at gydweithio ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ddatblygu strategaeth fwyd.

**Integreiddio ag Amcanion Llesiant** Er gwaethaf absenoldeb Nodau Llesiant neu Ddangosyddion Cenedlaethol uniongyrchol sy'n ymwneud â bwyd (o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) ceir cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd bwyd yn amcanion llesiant cyrff cyhoeddus. Mae mwy o gyrff cyhoeddus yn cyfeirio at fwyd yn eu hamcanion, yn enwedig felly Awdurdodau Lleol, ond erys heriau o ran integreiddio hynny mewn modd cynhwysfawr. Mae cyrff cyhoeddus yn canolbwyntio'n bennaf ar yr agweddau cymdeithasol ac economaidd ar lesiant a bwyd, ac mae dimensiynau amgylcheddol a diwylliannol wedi'u hanwybyddu hyd yma.

**Partneriaethau Bwyd Traws-Sector Lleol a Chyrff Cyhoeddus** Mae partneriaethau bwyd traws-sector lleol yn chwarae rhan arwyddocaol yn y broses o gydlynu gweithgareddau bwyd ar lawr gwlad, gyda chefnogaeth cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector. Ceir diddordeb cynyddol mewn sicrhau bod trefniadau caffael bwyd y sector cyhoeddus yn fwy cynaliadwy, ochr yn ochr ag ymdrechion i ddefnyddio mwy ar asedau cyhoeddus, megis tir, ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd, nad yw amcanion llesiant yn eu cwmpasu.

**Partneriaethau Bwyd Traws-Sector Lleol a Chydweithio rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** Er bod rhai partneriaethau wedi creu cysylltiadau â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, mae angen gwell cyfatebiaeth er mwyn gwella cydweithio a chyfathrebu.

**Awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu**

- **Gwell Integreiddio**: Dylai cyrff cyhoeddus integreiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd ymhellach yn eu hamcanion llesiant a'u gwaith llesiant, gan sicrhau cysondeb â nodau ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- **Gwell Trefniadau Monitro a Gwerthuso:** Datblygu dangosyddion a mesurau cynhwysfawr i fonitro a gwerthuso gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd, gan hwyluso dealltwriaeth well o'u heffaith ar lesiant cymunedol.
- **Cydweithio Cryfach:** Meithrin trefniadau cydweithredu cryfach rhwng partneriaethau bwyd traws-sector lleol, cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i annog dysgu ar y cyd a rhannu arferion gorau.
- **Symud tuag at ddulliau ataliol sy'n seiliedig ar systemau**: Cydbwyso camau gweithredu tymor byr o ymdrin â diffyg diogeledd bwyd dybryd ar aelwydydd a chamau gweithredu strategol hirdymor, er enghraifft ym maes


caffael cyhoeddus cynaliadwy, addysg neu ddatblygu strategaethau bwyd cenedlaethol a lleol. Mae angen i hyn gael ei gefnogi gan gyllid cyfatebol hirdymor a systematig.

- **Datblygu gweledigaeth a strategaeth fwyd genedlaethol, hirdymor ar gyfer Cymru, ochr yn ochr â rhoi mwy o amlygrwydd i ddangosyddion yn ymwneud â bwyd yn Nangosyddion Llesiant Cymru:** Bydd hyn yn cefnogi cyrff cyhoeddus drwy roi fframwaith i arwain cyrff cyhoeddus i integreiddio bwyd yn fwy yn eu cynlluniau llesiant.

**Cyflwyniad**

Mae'r bwyd yr ydym yn ei dyfu, yn ei gynhyrchu, yn ei fewnforio, yn ei goginio ac yn ei fwyta yng Nghymru wrth wraidd llesiant dynol a llesiant y blaned. Mae'r cyfuniad o sefyllfa fregus o ddibynnu ar gadwyni cyflenwi byd-eang, tlodi a chostau cynyddol yn esgor ar ddiffyg diogeledd bwyd, sy'n cael effaith uniongyrchol ar iechyd meddyliol a chorfforol pobl. Cynyddodd cyfraniad amaethyddiaeth at gyfanswm allyriadau Cymru o 13% yn 1990 i 17% yn 2018[1].

Fodd bynnag, gwyddom hefyd fod amaethyddiaeth ffyniannus a'r sector bwyd yn hanfodol i gymunedau gwledig a diwylliant Cymru oroesi a bod nifer cynyddol o gynhyrchwyr yn ymateb i'r her o dyfu bwyd mewn ffordd fwy cynaliadwy. Er y gall deimlo bod achosion y problemau cymhleth hyn a'r atebion iddynt y tu allan i Gymru a'n dylanwad ni, mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried effaith eu systemau bwyd lleol ar eu cymunedau a'u rôl wrth fynd i'r afael â nhw.




Yn ôl adroddiad WWF Cymru[2], mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn darparu fframwaith ac ysgogiadau i arwain y gwaith hwn. Gall hwyluso dull mwy integredig ar draws y system fwyd, er enghraifft, drwy gysylltu proses caffael bwyd y sector cyhoeddus â pholisïau addysg ac amaethyddol. Mae'n rhoi cyfle i ddangos sut y gall dull sy'n seiliedig ar systemau a chydweithio rhwng gwahanol sefydliadau arwain at fanteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol amrywiol o dan bob un o saith nod llesiant y Ddeddf.

**Nodau**

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi trosolwg o sut y mae bwyd wedi'i integreiddio i weithgareddau cyrff cyhoeddus, a gweithgareddau Awdurdodau Lleol yn fwy penodol. Mae'n crynhoi'r dadansoddiad o amcanion llesiant 2018-19 a 2022-23 a gynhaliwyd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, sy'n giplun sydd wedi'i gyfyngu gan ddyddiadau cyhoeddi gwahanol.

Er mwyn profi'r canfyddiadau a deall pa weithgareddau sy'n digwydd ar lawr gwlad, rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2024, trefnwyd arolwg atodol, dadansoddiad o ddogfennau a gweithdy, yn targedu partneriaethau bwyd lleol ac Awdurdodau Lleol. Ymatebodd Partneriaethau Bwyd Lleol o 19 o Awdurdodau Lleol i'r arolwg, a

---

[1] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Sut gallai Cymru fwydo ei hun erbyn 2035? Pecyn Tystiolaeth

[2] System Fwyd yng Nghymru sy'n Addas ar Gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol | WWF.

chymerodd 35 o gynrychiolwyr byrddau iechyd, Awdurdodau Lleol, sefydliadau'r trydydd sector a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ran mewn gweithdy ar-lein.

Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu i fod yn ymarfer mapio cynhwysfawr ond yn hytrach yn archwiliad o'r hyn a adroddir mewn amcanion llesiant o'i gymharu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sy'n digwydd ar lawr gwlad.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu saith nod llesiant fel diben cyffredin i gyrff cyhoeddus feithrin llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rhaid i gyrff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chamau i egluro sut y byddant yn gweithio i'w cyflawni, gan ddefnyddio pum ffordd o weithio. Yn gyffredinol, mae cyrff cyhoeddus yn integreiddio eu hamcanion i strategaethau cyffredinol y sefydliadau, sy'n golygu y gallant ddilyn amserlenni gwahanol a chael eu diwygio ar adegau gwahanol. Er enghraifft, gall cynllun corfforaethol Awdurdod Lleol barhau am bum mlynedd, tra bod cynlluniau tymor canolig integredig byrddau iechyd yn parhau am bum mlynedd. Rhaid i bob corff cyhoeddus, fodd bynnag, adrodd yn erbyn ei amcanion llesiant bob blwyddyn.

Mae Fframwaith Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir Cenedlaethol hefyd yn cefnogi'r Ddeddf er mwyn deall y darlun ehangach a monitro cynnydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n asesu'r sefyllfa o ran llesiant yn lleol, yn gosod amcanion ac yn llunio cynllun i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal leol. Bellach ceir 13 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n rhaid i'r byrddau gynnal 'Asesiad Llesiant' o'u hardal, sydd yn ei dro yn sail i Gynllun Llesiant, sy'n cynnwys Amcanion a Chamau. Mae'r cylch hwn yn digwydd bob pum mlynedd, gyda'r rownd nesaf o asesiadau i'w cynnal yn 2027, a chynlluniau'n cael eu cyhoeddi yn 2028.

**Nid oes yr un o'r saith nod llesiant yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion yn ymwneud â'r system fwyd**. Yn yr un modd, nid oes unrhyw un o'r 50 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol yn cynnwys dangosydd system fwyd cynhwysfawr, er bod rhai mesurau cysylltiedig yn bodoli (gweler y blwch isod).

Ym mis Tachwedd 2023, pennodd Derek Walker, Comisiynydd newydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fwyd fel maes ffocws sy'n cwmpasu'r pum cenhadaeth ehangach o fewn Cymru Can, y strategaeth newydd. Nododd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddau gyfle yn ymwneud â bwyd i helpu Cymru i gyflawni ei nodau: pwyso ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a helpu cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i integreiddio materion yn ymwneud â systemau bwyd i'w cynlluniau llesiant a'u gweithgareddau ar lawr gwlad.

**Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r system fwyd**

- Canran yr oedolion/plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy o ran eu ffordd o fyw (gan gynnwys bwyta ffrwythau a llysiau)
- Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol (gan gynnwys mesurau diffyg diogeledd bwyd yn y cartref gan gynnwys ymweliadau â banciau bwyd a mynd heb bryd o fwyd am ddiwrnod)
- Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd

Yn y gorffennol, adroddodd Llywodraeth Cymru hefyd yn ei hadroddiadau blynyddol Llesiant Cymru ar wastraff bwyd cartrefi a diffyg diogeledd bwyd ehangach, gan gynnwys pryderon am fforddiadwyedd bwyd.

**Partneriaethau bwyd traws-sector lleol**

Yn 2022, dyrannodd Llywodraeth Cymru £2.5 miliwn i ddatblygu partneriaeth bwyd amlsector ym mhob Awdurdod Lleol. Mae'r cyllid wedi'i ddarparu i gefnogi cydgysylltu partneriaethau a chyllideb gyfalaf i fynd i'r afael â thlodi bwyd, gan roi sylw i achosion sylfaenol diffyg diogeledd bwyd a gweithredu gan ddinasyddion. Daeth adroddiad interim gan Brifysgol Gorllewin Lloegr a Lleoedd Bwyd Cynaliadwy i'r casgliad ym mis Mehefin 2023 fod y partneriaethau ar gamau datblygu gwahanol, gan adlewyrchu amodau gwahanol eu hardaloedd. Mae Synnwyr Bwyd Cymru a fframwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy wedi bod yn ganolog i ddatblygu partneriaethau, gan alluogi partneriaethau newydd i fanteisio ar brofiadau rhai mwy sefydledig. Er gwaethaf pwysigrwydd y cyllid i ddarparu momentwm ar gyfer y gwaith hwn, nid oes gan bartneriaethau adnoddau y gellir dibynnu arnynt o ystyried maint a chymhlethdod y materion sy'n ymwneud â systemau bwyd y maent yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

**Bwyd yn amcanion a chamau llesiant cyrff cyhoeddus**

**Astudiaeth Achos 1 Cyngor Sir Fynwy**

Mae Cyngor Sir Fynwy yn enghraifft o arfer da o ran integreiddio camau gweithredu'n ymwneud â bwyd i'w amcanion a'i gamau llesiant. Mae'n edrych ar bethau o safbwynt y system fwyd, sy'n golygu cwmpasu'r gadwyn gwerth bwyd, o gynhyrchu i fwyta, materion lluosog (tlodi bwyd, datgarboneiddio, caffael yn y sector cyhoeddus) a lefelau lluosog o lesiant. Mae hefyd yn ymgorffori'r 5 ffordd o weithio yn y rhan fwyaf o'i gamau.

**Amcan llesiant**

Lle Teg i Fyw: Ni ddylai unrhyw un gael ei adael ar ôl yn Sir Fynwy neu'n teimlo nad oes neb yn gwrando arno. Mae llawer o'n trigolion yn ffyniannus ac yn medru gofalu am eu hunain a'u hanwyliaid. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am bawb, ac mewn sir wledig, mae anghydraddoldeb yn aml yn fwy cudd na'r hyn sydd i'w weld mewn lleoedd trefol. Byddwn yn gweithio hyd yn oed yn fwy caled i helpu'r sawl sydd angen cymorth i fyw'r bywydau y maent yn eu dymuno.

**Enghreifftiau o gamau sy'n ymwneud â bwyd**

- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn lleihau ansicrwydd bwyd a helpu pobl i sicrhau lle er mwyn cadw'n dwym yn y gaeaf.
- Gweithredu prydau ysgol am ddim ar gyfer yr holl blant ysgol gynradd sydd angen hyn gyda chymorth yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer y sawl sydd angen hynny.

**Amcan llesiant**

Lle Gwyrdd i fyw: rydym yn cydnabod harddwch eithriadol Sir Fynwy. Fel y rhai sydd yn gwarchod y lle anhygoel hwn, rydym angen annog trigolion ac ymwelwyr i fwynhau, amddiffyn a gofalu am ein sir. Mae'r byd naturiol, yn ei ffurfiau gwahanol, yn gefnlen i'n heconomi twristiaeth ac ymwelwyr. Byddwn yn gweithio gydag eraill er mwyn hyrwyddo mynediad i'n lleoedd arbennig tra hefyd yn amddiffyn yr amgylchedd, cefnogi adferiad natur, lleihau'r risg o lifogydd a'n hyrwyddo'n economi gylchol.

**Ffocws**

Arferion amaeth a ffermio lleol cynaliadwy gyda gwasanaethau cyhoeddus a thrigolion yn defnyddio mwy o gynnyrch lleol a thymhorol.

**Enghreifftiau o gamau sy'n ymwneud â Bwyd**

- Hyrwyddo mynediad cymunedol at dir ar gyfer tyfu bwyd
- Hyrwyddo buddion bwyd lleol a lleihau gwastraff bwyd
- Cynyddu'r defnydd o fwyd lleol mewn ysgolion a chartrefi gofal
- Gweithio gyda Food Monmouthshire – partneriaeth bwyd cynaliadwy y sir gyda chyflenwyr, proseswyr a logisteg er mwyn cefnogi datblygiad y gadwyn gyflenwi leol a lleihau ein dibynadwyedd ar fewnforio bwyd
- Cefnogi mentrau i helpu ffermwyr i gynyddu atafaelu carbon a mabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy ac adfywiol.


Mae mwy o gyrff cyhoeddus yn cyfeirio at fwyd yn eu hamcanion a'u camau llesiant nawr nag yn 2019, sy'n awgrymu eu bod yn cydnabod pwysigrwydd bwyd a systemau bwyd i lesiant. Mae pedwar o blith y saith bwrdd iechyd yn cyfeirio at fwyd[3], a dau o'r tri pharc cenedlaethol.

Mewn byrddau iechyd, ffocws allweddol yw rôl bwyd a maeth o ran atal gordewdra (a chlefydau anhrosglwyddadwy eraill, e.e. diabetes) a rheoli pwysau. Mae cynllun diweddaraf Bannau Brycheiniog yn manylu ar gynnwys ffermwyr a rheolwyr tir fel rhan o'u strategaeth i gynyddu iechyd ecosystemau.

Mae'r rhan fwyaf o gamau sy'n cyfeirio at fwyd i'w gweld yn amcanion a chamau Awdurdodau Lleol; fodd bynnag, mae llai na'u hanner wedi integreiddio bwyd i'w cynlluniau llesiant. Yn 2023, gostyngodd y nifer hwn o 10 i 8. Mae diffyg diogeledd bwyd a chostau byw yn parhau i fod yn ffocws allweddol, gydag Awdurdodau Lleol yn cymryd camau i sicrhau bod bwyd iach o fewn cyrraedd pobl ar incwm isel, yn enwedig drwy wella'r ddarpariaeth bwyd ysgol (gan gynnwys yn ystod gwyliau). Gall hyn adlewyrchu diffyg diogeledd bwyd cynyddol a pholisi Llywodraeth Cymru i ddarparu Prydau Ysgol Am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd.

[3] Nid yw'n bosibl gweld tueddiadau rhwng blynyddoedd oherwydd ni wnaeth pob bwrdd iechyd ddiweddaru ei amcanion yn 2022-2023.

Yr ail thema allweddol oedd cefnogi busnesau bwyd lleol a thwristiaeth. Er bod y ffocws ar lesiant diwylliannol ac amgylcheddol ar goll i raddau helaeth, mae mwy o Awdurdodau Lleol bellach yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar systemau o ymdrin â bwyd o gymharu â 2019.




Y tu hwnt i unrhyw fesurau uniongyrchol, bu cynnydd sylweddol mewn termau a oedd yn ymwneud yn anuniongyrchol â'r system fwyd, a allai ddangos bod diddordeb cynyddol a chyfle i gyrff cyhoeddus integreiddio bwyd yn fwy yn eu hamcanion. Er enghraifft, cynyddodd y defnydd o'r term 'natur' mewn camau llesiant ddegwaith, ochr yn ochr â chaffael, twristiaeth a lletygarwch. Ar y llaw arall, nid oedd unrhyw sôn am fwyta llysiau a ffrwythau na deiet.

**Bwyd yn amcanion a chamau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Yn 2022 – 23, roedd 8 o blith y 13 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Ynys Môn a Gwynedd, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy a Sir Ddinbych, Cwm Taf Morgannwg, Powys, Bro Morgannwg) wedi integreiddio bwyd yn uniongyrchol i'w cynlluniau llesiant. Mae'r themâu allweddol **yn cynnwys hybu ffyrdd iach o fyw a phwysau iach neu wneud cynnydd o ran cydlynu bwyd**, er enghraifft, drwy sefydlu partneriaethau a strategaethau bwyd lleol. Mae materion yn ymwneud â systemau bwyd hefyd yn ymddangos **yn anuniongyrchol**, er enghraifft drwy gamau sy'n hyrwyddo Cyflog Byw Gwirioneddol, rheoli tir mewn modd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, a chaffael gwasanaethau a nwyddau yn lleol. Mae diddordeb Byrddau Gwasanaethau Lleol yn y meysydd hyn yn dangos bod cyfleoedd i faterion sy'n ymwneud â systemau bwyd ddod yn ffocws i'r camau hyn. Mae diagram isod yn dangos enghreifftiau o amcanion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gysylltiedig â bwyd yn unol â nodau llesiant; amlygir y rhai anuniongyrchol mewn llythrennau italig.

I rai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys, Gwynedd ac Ynys Môn), dyma'r tro cyntaf i fwyd gael ei ystyried yn agored, sy'n dangos diddordeb cynyddol mewn gweithio'n systematig gyda materion bwyd. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, nid yw amcanion llesiant 2023 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Sir y Fflint yn cynnwys y ffocws ar fwyd a oedd yn bresennol yn eu hamcanion ar gyfer 2018-9. Yn yr un modd, er bod bwyd wedi'i integreiddio i raddau amrywiol i amcanion llesiant Awdurdodau Lleol Torfaen a Sir Fynwy, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.[4]. Nid yw amcanion llesiant Cyrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n ymwneud â bwyd yn canolbwyntio ar Gymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang.

[4] Fodd bynnag, awgrymodd un o gyfranogwyr y gweithdy fod angen i waith partneriaethau bwyd gael ei gysylltu'n well â'r agenda atal afiechyd o fewn egwyddorion Marmot sydd yng nghynllun Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent.

### Cymru sy'n fwy cyfartal

- **Conwy a Sir Ddinbych** Ysgogi a chefnogi grwpiau cymunedol i helpu pobl barhau'n wydn; er enghraifft, cefnogi ffordd o fyw iach neu roi cymorth gyda phwysau sy'n gysylltiedig â chostau pwysau byw.
- **Bro Morgannwg** Cefnogi gwaith i fynd i'r afael â thlodi bwyd gan gydnabod y cysylltiadau agos ag iechyd a llesiant amgylcheddol; Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i helpu ein cymunedau a'n staff i ymdrin ag effeithiau'r argyfwng costau byw e.e. cynnydd mewn prisiau bwyd ac ynni a chostau teithio.




### Cymru lewyrchus

- **Gwynedd a Môn; Conwy a Sir Ddinbych** Gweithredu caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol er budd y gadwyn gyflenwi leol a hyrwyddo economi gylchol yn lleol
- **Sir Gaerfyrddin** Drwy gaffael, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud y defnydd gorau o gyflenwyr lleol ar gyfer ei nwyddau, ei wasanaethau a'i waith. Cynyddu'r Achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a hyrwyddo Cyflog Byw Gwirioneddol yn lleol
- **Caerdydd** Gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat ac erbyn mis Tachwedd 2025

### Cymru iachach

- **Castell-nedd Port Talbot** Mabwysiadu dull yn seiliedig ar system gyfan o ymdrin â Phwysau Iach (amcan)
- **Bro Morgannwg** Gwella iechyd a llesiant ar draws y Fro gyda ffocws arbennig ar lefelau gweithgarwch corfforol, diet, y nifer sy'n derbyn brechiadau a sgrinio.
- **Cwm Taf Morgannwg** Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn ein cymunedau fel bod llai o bobl, yn enwedig plant, yn ordew
- **Sir Gaerfyrddin** Cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen Pwysau Iach, Cymru Iach
- **Caerdydd** Cynyddu canran y plant, pobl ifanc a phobl (oedolion) sydd â phwysau iach a chynyddu lefelau gweithgaredd corfforol, yn enwedig yn y cymunedau mwy difreintiedig, drwy gyflawni Strategaeth Symud Mwy, Bwyta'n Iach 2020-2023.
- **Powys** Dull system gyfan tuag at Bwysau Iach (amcan llesiant gyda chamau cynhwysfawr)


### Cymru gydnerth

- **Cwm Taf Morgannwg** Deall sut y gall pob un ohonom ddefnyddio adnoddau yn fwy cynaliadwy er mwyn i ni weld gwell rheolaeth o'n tir a'n harfordir er mwyn lleihau allyriadau carbon a chynyddu dal carbon
- **Ceredigion** Ceisio gwarchod a gwella iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chefnogi gweithredu cynllun ffermio cynaliadwy Llywodraeth Cymru yng Ngheredigion.
- **Bro Morgannwg** Cymryd rhan yn y gwaith i ddatblygu strategaeth integredig ar gyfer ystadau'r sector cyhoeddus (adeiladau a daliadau tir) i wella darpariaeth gwasanaeth a'n gwaith ar y newid hinsawdd.
- **Caerdydd** Ymgorffori dal a storio carbon, plannu coed a phrotocolau rheoli tir sy'n amgylcheddol gyfrifol mewn strategaethau ystadau; Cydweithio i leihau effaith carbon gweithgareddau caffael aelodau BGC a symud i economi gylchol; cynyddu'r cyfle i amsugno allyriadau a gwella bioamrywiaeth gyda seilwaith gwyrdd. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i'r defnydd o dir y sector cyhoeddus i gynyddu nifer y coed sy'n cael eu plannu er mwyn cynyddu atafaelu carbon a gwella bioamrywiaeth.

### Llywodraethu

- **Caerdydd** Hyrwyddo bwyd iach, lleol, a charbon isel a chefnogi cais Bwyd Caerdydd i ddod y Lle Bwyd Cynaliadwy Aur cyntaf yng Nghymru
- **Sir Gaerfyrddin** Paratoi a chyhoeddi Strategaeth Fwyd Sir Gaerfyrddin; Gweithio tuag at ddatblygu system fwyd leol integredig
- **Ceredigion** Datblygu Partneriaeth Bwyd Lleol ledled Ceredigion i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd bwyd, mynediad a fforddiadwyedd tra hefyd yn cydnabod y manteision llesiant ychwanegol y gall mentrau bwyd cymunedol/cynlluniau tyfu eu cyflwyno.

**Gweithgareddau systemau bwyd ar lawr gwlad – yr hyn a ddysgwyd o'r arolwg a'r gweithdy**




Er bod llai na hanner yr Awdurdodau Lleol wedi integreiddio bwyd i'w cynlluniau llesiant, mae gan y rhan fwyaf bellach bartneriaeth bwyd lleol gyda chydlynydd. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn lletya ychydig llai na hanner y partneriaethau - gyda phartneriaethau eraill yn cael eu lletya gan fyrddau iechyd neu'r trydydd sector. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau'n gweithio tuag at strategaeth fwyd wedi'i dylunio ar y cyd â chyrff cyhoeddus[5], yn enwedig Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd. Mae naw partneriaeth yn aelodau o Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ac mae saith arall yn gweithio tuag at y nod hwn.

Mae gan 70 y cant o bartneriaethau gymorth ariannol sy'n parhau y tu hwnt i fis Mawrth 2024, gyda Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi'i nodi fel ffynhonnell allweddol yn ogystal â chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn wedi hwyluso rolau cydlynwyr a phrosiectau systemau bwyd amrywiol, megis gweithdai coginio iach yng Nghaerffili, gwella cynhyrchiant bwyd lleol yn Sir Gaerfyrddin, a chynyddu gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd tyfu bwyd cymunedol yn Abertawe. Mae'n ymddangos bod partneriaethau sy'n cael eu lletya gan gyrff cyhoeddus fwy o allu i ymdopi gyda cholli cyllid. Mae dwy ran o dair o bartneriaethau sy'n cael eu lletya gan sefydliadau'r trydydd sector mewn perygl o fod ar ymyl y dibyn yn ariannol ym mis Mawrth 2025.

> *'Mae'n teimlo fel ein bod ni wedi dechrau'n dda iawn, mae sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn cydweithio ar brosiectau mewn ffyrdd nas gwelwyd o'r blaen,[…]. Mae'n rhwystredig iawn gweld hynny i gyd yn diflannu eto nawr, gan na fydd cydlynydd i ddal y cyfan at ei gilydd.'*
> Partneriaeth bwyd yn y trydydd sector

Yn gynyddol, mae awdurdodau lleol yn penodi staff pwrpasol ar gyfer systemau bwyd cynaliadwy, ochr yn ochr â chydlynwyr partneriaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys rolau fel swyddog Bwyd a Ffermio (Bro Morgannwg), tîm Gwydnwch Bwyd (Torfaen), Swyddog Datblygu Bwyd (Sir Gaerfyrddin) ac Ymgysylltu â System Fwyd Gynaliadwy (Sir Fynwy). Mae Partneriaethau Bwyd Lleol hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o wahanol adrannau o fewn cynghorau, gan gynnwys adrannau arlwyo, caffael, adfywio, llesiant cymunedol, datblygu, addysg, gwasanaethau cyflogaeth, a mentrau sero net. Trafodwyd cynnydd o ran cydweithio rhwng adrannau cynghorau yn y gweithdy, gan gydnabod heriau fel prinder adnoddau, problemau'n ymwneud â chapasiti, ac aliniad trawsadrannol a diffyg gwerthoedd cyffredin.

> *"Sut y mae sicrhau bod strategaethau bwyd lleol yn cyd-fynd ag amcanion ehangach? Mae tensiynau rhwng yr angen i gael llai o gynhyrchion llaeth a chig ar y plât, a'r ffaith bod polisïau amaethyddol yn dal i gefnogi diwydiant yn bennaf. Allwch chi ddatrys hynny ar lefel leol? Neu a oes angen strategaeth genedlaethol arall arnom?"*
> Swyddog y bwrdd iechyd

Wrth ddatblygu strategaethau bwyd, amlygwyd cyllid parhaus, strwythurau llywodraethu cadarn, aelodaeth amrywiol, ac ymgysylltu ystyrlon â'r cyhoedd

[5] Dim ond un cyfranogwr a soniodd am strategaeth Awdurdod Lleol ar wahân (Cyngor Caerdydd), yn ogystal â strategaeth partneriaeth a luniwyd ar y cyd gan neu gyda'r corff cyhoeddus.

fel elfennau hanfodol. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch effeithiolrwydd strategaethau lleol o ran mynd i'r afael â materion ehangach yn y system fwyd sy'n gysylltiedig â chyd-destunau rhanbarthol, cenedlaethol neu fyd-eang.

**Mesurau a dangosyddion**

Mae ychydig o dan hanner y cyfranogwyr wedi pennu mesurau a dangosyddion i fonitro a gwerthuso eu gwaith. Ymhlith y rhai sydd wedi gwneud hynny, mae'r ffocws yn bennaf ar fetrigau mesuradwy megis nifer y cyfranogwyr neu sefydliadau sy'n cymryd rhan, gyda'r rhan fwyaf yn cysylltu gwerthuso â gofynion ariannu neu graffu mewnol.

Er gwaethaf nifer yr achosion o fesurau meintiol, mae rhai cyfranogwyr yn gwerthfawrogi astudiaethau achos i gael dealltwriaeth ddyfnach o ganlyniadau ac effeithiau. Ystyriwyd bod cydweithio ar gasglu data, yn enwedig gyda phartneriaid fel banciau bwyd, yn bwysig. Awgrymodd y cyfranogwyr o fyrddau iechyd y dylid defnyddio offer fel y Matrics Aeddfedrwydd wrth werthuso iechyd y cyhoedd. Roedd rhai cyfranogwyr nad oedd ganddynt ddangosyddion yn teimlo ei bod yn rhy gynnar yn hanes eu partneriaeth i bennu rhai.

**Enghreifftiau o'r dangosyddion a ddefnyddiwyd**

- Nifer y cyfranogwyr a'r sefydliadau dan sy'n cymryd rhan, swyddi a ddiogelwyd, rhandiroedd a chynlluniau datgarboneiddio a grëwyd
- Allyriadau carbon yn y maes caffael
- Addunedau a llofnodi'r Siarter Fwyd
- Canran y trigolion sy'n teimlo bod symudiad tuag at fwyd da yn yr ardal leol
- Bwyta Ffrwythau a Llysiau
- Canran y trigolion sy'n teimlo'n hyderus i brynu bwyd sy'n cael ei gynhyrchu mewn ffordd ecogyfeillgar
- Canran y trigolion sy'n profi diffyg diogeledd bwyd

**Cyflwyno gweithgareddau system fwyd**

Mae rhywfaint o gyfatebiaeth rhwng amcanion llesiant a gweithgareddau sy’n ymwneud â bwyd mewn awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar fynd i'r afael â **diffyg diogeledd bwyd a bwyta'n iach,** megis cefnogi prosiectau bwyd cymunedol drwy Grantiau Bach neu Gymorth Bwyd Uniongyrchol a chydweithio â byrddau iechyd ar weithdai coginio a thrwy agenda ehangach Pwysau Iach, Cymru Iach.

Fodd bynnag, fel y dengys yr enghreifftiau o weithgareddau a chyflawniadau yn Atodiad 1, mae diddordeb cynyddol hefyd mewn sicrhau bod **trefniadau caffael bwyd y sector cyhoeddus** yn fwy cynaliadwy (yn arbennig prydau ysgol), ochr yn ochr ag ymdrechion i ddefnyddio mwy ar **asedau cyhoeddus**, megis tir, **ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd**, nad yw amcanion llesiant yn eu cwmpasu. Er eu bod yn sôn am gaffael cynaliadwy cyffredinol a rheoli defnydd tir, mae mwy o botensial i’w halinio â’r gwaith ar fwyd sydd eisoes yn digwydd ar lawr gwlad.

Amlygodd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a’r gweithdy fod cydweithio ar draws gwahanol gyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector yn hanfodol ar gyfer cyflawni gweithgareddau systemau bwyd:

| | |
|---|---|
| *'Rydym wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Powys i adolygu ei ystâd ffermydd i'w gwneud yn addas ar gyfer garddwriaeth ar raddfa fach.'*<br><br>Swyddog trydydd sector | *'Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddatblygu rhaglenni sy'n mynd i'r afael â bwyta'n iach a choginio ar gyllideb'*<br><br>Swyddog Awdurdod Lleol |

| | |
|---|---|
| *'Cydweithio ar gynllun buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi y prosiect Llysiau o Gymru i Ysgolion Cymru'*<br><br>Swyddog Awdurdod Lleol | *'Byddaf yn parhau i weithio gyda phartneriaethau bwyd ar draws ardal Hywel Dda i gysylltu'r gwaith Pwysau Iach parhaus.'*<br><br>Swyddog y Bwrdd Iechyd |

**Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Er gwaethaf eu cysylltiadau ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd, **dim ond traean o bartneriaethau** sydd wedi sefydlu perthynas â'u Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n golygu bod rhai yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrthynt.

*'Mae'r cysylltiad ag amcanion y bartneriaeth bwyd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn teimlo'n ddigyswllt. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hapus i gynnwys datganiadau fel 'mynediad i fwyd iach, fforddiadwy a chynaliadwy' ... prin yw'r dystiolaeth o sut y gallem weithredu'r fframwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy, trawsnewid arlwyo, caffael a'r economi fwyd leol.' -* Swyddog awdurdod lleol

Noda'r rhai sy'n gweithio gyda'u Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod **trefniadau llywodraethu** a **gweithredu ar y cyd** yn ffactorau llwyddiant allweddol. Mae cael cynrychiolydd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw is-grwpiau neu weithgorau) a grŵp llywio Partneriaeth Bwyd Lleol yn hwyluso cyfathrebu effeithlon a rhannu gwybodaeth. Prin yw'r rhai sy'n adrodd yn ffurfiol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac ystyrir bod perthnasoedd anffurfiol fel mynychu digwyddiadau gyda'i gilydd neu rannu gofod swyddfa yn bwysig hefyd. Mae rhai cynrychiolwyr byrddau iechyd yn gweld eu hunain fel cysylltwyr posibl rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau.

Dangosir isod rai enghreifftiau o ymgymryd â gweithgareddau'r system fwyd ar y cyd. Ar wahân i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, mae pob un ohonynt wedi integreiddio bwyd i'w hamcanion llesiant hefyd i ryw raddau. Daw'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau hyn gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd ag un Awdurdod Lleol a gall y profiad fod yn wahanol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi uno.

| | |
|---|---|
| Mae **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Bro Morgannwg** wedi datblygu Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach er mwyn gwella'r bwyd a'r gweithgaredd corfforol yn eu cymunedau. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sefydliadau'r trydydd sector, lleoliadau addysgol a Phartneriaethau Bwyd Lleol.<br><br>Comisiynodd **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot** Bwyd Abertawe a 4the Region (aelod a Chadeirydd allweddol Bwyd Abertawe) i gyflwyno cyfres o weithdai 'Bwyd Cyhoeddus ar Blât Lleol' ar gyfer swyddogion y sector cyhoeddus yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe i drafod sut y gall y sector cyhoeddus gaffael bwyd yn lleol. Mae Bwyd Abertawe hefyd yn bwriadu rhannu ei gynllun bwyd | Mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin** yn cydweithio â chyrff cyhoeddus a'r bartneriaeth fwyd leol i ddatblygu strategaeth fwyd ar gyfer y sir gyfan, sef amcan llesiant allweddol. Er mwyn hwyluso hyn, penododd Cyngor Sir Caerfyrddin Swyddog Datblygu Bwyd amser llawn, a ariannwyd i ddechrau gan y Rhaglen Datblygu Gwledig a chafodd ei ymestyn yn ddiweddarach drwy gyllid craidd y cyngor am chwe mis ychwanegol.<br>Mae cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn gwella effeithiolrwydd ymdrechion y bartneriaeth bwyd lleol yn sylweddol. Mae'n berthynas sydd o fudd i'r ddwy ochr – creodd aelodau'r Bwrdd a'r sefydliadau sy'n mynychu grŵp llywio Partneriaethau Bwyd Lleol ffocws yn seiliedig ar chwe thema allweddol Lleoedd Bwyd |

| | |
|---|---|
| cynaliadwy 5 mlynedd gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. | Cynaliadwy, gan ategu amcanion strategol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>Ar yr un pryd, bu'r Bartneriaeth Bwyd Lleol yn ymgyrchu'n llwyddiannus dros gamau gweithredu i gryfhau'r system fwyd fel rhan o Gynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall y sgiliau a'r adnoddau y mae pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cyfrannu gefnogi ymyriadau effeithiol ar y lefel gymunedol (e.e. mynediad i dir cyhoeddus ar gyfer tyfu bwyd cymunedol ynghyd â gwella iechyd a llesiant, ac ar lefel strategol o dir cyhoeddus i blât cyhoeddus gyda ffocws ar gefnogi cynhyrchwyr cynradd lleol ehangach i gael mynediad i gadwyni cyflenwi byr).<br>Mae [strategaeth ddrafft ]yn cynnwys cyfres gynhwysfawr o ddangosyddion a mesurau sy'n cyd-fynd ag amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| Nododd **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg** ddiddordeb eang gan yr holl bartneriaid mewn gweithio ar systemau bwyd cynaliadwy. Daeth bwyd i'r amlwg yn ei asesiad llesiant ac mae'n meithrin perthynas â Phartneriaethau Bwyd Lleol. Mae llawer o weithgarwch yn digwydd ar lawr gwlad, mewn cyrff cyhoeddus (e.e. gwaith Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar gaffael bwyd cynaliadwy, gwaith Awdurdodau Lleol ar brydau ysgol) ac yn y gymdeithas sifil. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar le, ond mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfle i ddod â'r gweithgareddau hyn at ei gilydd, dysgu oddi wrth ei gilydd ac adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn digwydd. | |

Serch hynny, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd hefyd yn ymwneud â gwaith sy'n gysylltiedig â bwyd y tu hwnt i bartneriaethau bwyd lleol, gan gynnwys darparu Dulliau sy'n Seiliedig ar Systemau Pwysau Iach a'r rhaglen arfaethedig Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru.

**Casgliad a chamau gweithredu a awgrymir**

Gwelwyd diddordeb cynyddol yng Nghymru mewn materion yn ymwneud â systemau bwyd ymhlith awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus, a gefnogir yn gyffredinol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae datblygiad a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i bartneriaethau bwyd traws-sector lleol wedi bod yn gam cadarnhaol, gan hyrwyddo cydweithio a chyfranogiad y cyhoedd wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth bwyd. Fodd bynnag, mae heriau megis adnoddau cyfyngedig, capasiti, a diffyg gweledigaeth genedlaethol ar gyfer systemau bwyd Cymru yn parhau i fod yn ffactorau sy'n cyfyngu arnynt.

Mae angen i weithgareddau presennol ar lawr gwlad gael eu hangori'n briodol yn yr amcanion llesiant, gan gwmpasu pob dimensiwn llesiant. Mae angen i'r agweddau presennol ar iechyd, diogeledd bwyd ac agweddau economaidd gael eu hategu drwy fanteisio ar gamau diwylliannol ac amgylcheddol y mae cyrff cyhoeddus eisoes yn eu cymryd mewn mannau eraill, er enghraifft drwy gaffael cyhoeddus, gwaith teg, addysg a defnydd tir. Gall defnyddio dull yn seiliedig ar systemau o ymdrin â bwyd a llesiant arwain at nifer o fanteision – boed yn ennyn diddordeb dysgwyr ifanc mewn sgiliau newydd, cefnogi cymunedau cydlynol drwy gynyddu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'u diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill, neu annog economïau gwledig.

Mae arfer bwyd da hefyd yn dod i'r amlwg mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus drwy drefniadau cyd-lywodraethu a chydweithredu yn ogystal â thrwy feithrin perthynas fwy anffurfiol a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Ochr yn ochr â ffactorau eraill, mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Bartneriaethau Bwyd traws-sector lleol a'u gwaith wedi helpu rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i roi bwyd ar yr agenda.

Er mwyn gwneud cynnydd gyda gwaith ar systemau bwyd mewn cyrff cyhoeddus, awgrymir y camau gweithredu a ganlyn:

**Partneriaethau bwyd traws-sector lleol**

- **Rhannu'r hyn a ddysgwyd** ynghylch cydweithio, dull yn seiliedig ar systemau o ymdrin â bwyd ac ymgysylltiad y cyhoedd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i lywio eu gwaith nawr ac Asesiadau Llesiant (2026-27) a Chynlluniau Llesiant (2028) yn y dyfodol
- **Sicrhau** y cefnogir strategaethau bwyd lleol gan ddangosyddion a mesurau, i ddeall pa ymyriadau sy'n gweithio, i bwy ac i ble, ac i rannu'r hyn a ddysgir a dathlu'r gwaith y maent yn ei wneud.

**Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd**

- **Integreiddio** amcanion llesiant a chamau CAMPUS yn ymwneud â'r system fwyd yn eu cynlluniau llesiant i gefnogi gwaith sydd eisoes yn digwydd ar lawr gwlad ac annog mwy o integreiddio a ffocws hirdymor.
- **Symud tuag at ddull ataliol sy'n seiliedig ar systemau**, cydbwyso camau gweithredu tymor byr o ymdrin â diffyg diogeledd bwyd difrifol a salwch â chamau gweithredu hirdymor ym maes caffael cyhoeddus cynaliadwy a datblygu strategaethau ar gyfer systemau bwyd.
- **Sicrhau** bod gan bartneriaethau bwyd traws-sector lleol a rhanddeiliaid systemau bwyd allweddol eraill ddigon o adnoddau er mwyn gallu denu amrywiaeth o wahanol gyfleoedd cyllido, fel y gwelir drwy bartneriaethau bwyd sefydledig yn cael cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

- **Integreiddio** amcanion llesiant a chamau CAMPUS yn ymwneud â'r system fwyd i gynlluniau llesiant yn y dyfodol i gefnogi gwaith sydd eisoes yn digwydd ar lawr gwlad ac annog mwy o gydgysylltu a ffocws hirdymor.
- **Cael** cynrychiolydd systemau bwyd yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (neu ei weithgorau/is-grwpiau) a grŵp llywio/partneriaethau bwyd traws-sector lleol i sicrhau cyfathrebu effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgir.
- **Creu perthnasoedd** gyda phartneriaethau bwyd traws-sector lleol i wella dysgu ar y cyd mewn perthynas â chydweithio a chyfranogiad y cyhoedd

**Llywodraeth Cymru**

- **Cefnogi** cyrff cyhoeddus drwy ddulliau ariannu parhaus, hirdymor (refeniw a chyfalaf) sy'n ymroddedig i waith systemau bwyd
- **Tywys** cyrff cyhoeddus a strategaethau bwyd lleol drwy weledigaeth genedlaethol hirdymor ar y cyd ar gyfer system fwyd Cymru. Ar hyn o bryd mae cyrff cyhoeddus yn datblygu amcanion llesiant sy'n ymwneud â bwyd heb allu cysylltu'r amcanion hyn â strategaeth fwyd genedlaethol - a gallai ei habsenoldeb hefyd fod yn rheswm pam nad yw llawer o gyrff cyhoeddus wedi integreiddio bwyd i'w

cynlluniau llesiant presennol. Dylai'r strategaeth gael ei chyd-gynhyrchu gyda phawb sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod - o gynhyrchwyr bwyd a rheolwyr tir, i weithgynhyrchu, manwerthu, prynwyr ar raddfa fawr (e.e. byrddau iechyd, ysgolion) a defnyddwyr. Yn hollbwysig, byddai hyn yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael cyfarwyddyd ar sut i gysoni eu cynlluniau ag uchelgeisiau cenedlaethol gyda'r nod o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y problemau yn y system fwyd, ac nad yw ymdrechion lleol yn dameidiog nac yn dyblygu ei gilydd.

- **Cynnull,** mewn cydweithrediad â phartneriaid**,** (Synnwyr Bwyd Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, CLlLC ac eraill) lle i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill rannu'r hyn a ddysgwyd am arfer gorau, cyfleoedd a heriau dull sy'n seiliedig ar systemau o ymdrin â bwyd. Gallai hyn hefyd gynnwys canllawiau uniongyrchol ar sut y gall bwyd gyflawni pob nod llesiant, er enghraifft, sut y mae cadwyni cyflenwi teg a moesegol neu wersi rhyngwladol yn cyfrannu at gyrraedd y nod 'Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang'.
- **Ystyried** sut i roi mwy o amlygrwydd i ddangosyddion yn ymwneud â bwyd neu ddeiet o fewn Dangosyddion Llesiant. Gall y dangosyddion hyn roi mwy o arweiniad i gyrff cyhoeddus wrth iddynt osod ac asesu eu hamcanion llesiant - a gallai dangosyddion bwyd amlycach, ochr yn ochr â strategaeth fwyd genedlaethol, annog mwy o gyrff cyhoeddus i ystyried integreiddio bwyd yn eu cynlluniau llesiant.

.

**Atodiad 1**

| Awdurdod Lleol | Enghreifftiau o weithgareddau a chyflawniadau |
|---|---|
| **Abertawe** | **Caffael cyhoeddus:** Cefnogodd y tîm arlwyo gynllun peilot O'r Fferm i'r Fforc Gŵyr<br>**Cynhyrchu bwyd:** Cyfleoedd rhwydweithio ac astudiaethau dichonoldeb i gefnogi cadwyni cyflenwi bwyd lleol<br>**Cynhyrchu bwyd:** Cefnogodd cyllid Llywodraeth Cymru a sianelwyd i Bwyd Abertawe 11 o brosiectau bwyd cynaliadwy.<br>**Diffyg diogeledd bwyd:** lletya Rhwydwaith Tlodi Bwyd a gweinyddu cronfa Cymorth Bwyd Uniongyrchol |
| **Blaenau Gwent** | **Bwyta'n iach:** Gwella'r nifer sy'n manteisio ar Cychwyn Iach drwy'r bartneriaeth bwyd a'r Bwrdd Iechyd<br>**Diogeledd bwyd:** Annog grwpiau cymunedol i fabwysiadu model mwy cynaliadwy (fel Pantri/archfarchnad gymdeithasol) yn ystod rownd ddiweddar y Gronfa Cymorth Bwyd Uniongyrchol<br>**Bwyta'n iach:** Hyrwyddo sgiliau maeth am oes ar gyfer gweithwyr bwyd cymunedol rheng flaen<br>**Asedau cyhoeddus**: Ymchwilio i brosesau Trosglwyddo Asedau Cymunedol i alluogi tyfu mwy o fwyd ar dir cyhoeddus (Astudiaeth achos) |
| **Bro Morgannwg** | **Caffael cyhoeddus:** Mae'r bartneriaeth bwyd wedi cynnal gweithgor iach a chynaliadwy mewn cydweithrediad â Bwyd Caerdydd, y Bwrdd Iechyd, Prifysgolion, Colegau ac Awdurdodau Lleol.<br>**Caffael cyhoeddus:** Mae cwmni arlwyo sy'n eiddo i'r Cyngor wedi lleihau ei filltiroedd bwyd a'i ôl troed carbon drwy newid i gyflenwr llaeth lleol. |
| **Caerdydd** | Caffael cyhoeddus: Rhan o waith Bwyd o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru a Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru (prosiect cydweithredol sy'n cynnwys bwrdd iechyd) sy'n anelu at gynyddu cynnyrch Cymreig wrth gaffael bwyd ysgol<br>**Trefniadau llywodraethu:** Mae Bwyd Caerdydd yn aelod o grŵp llywio'r Cyngor ar gyfer strategaeth fwyd y Cyngor a bu'n helpu i ddatblygu'r ddogfen hon |
| **Caerffili** | **Bwyta'n iach:** Cydweithio â'r bwrdd iechyd i ddatblygu rhaglen coginio'n iach o fewn y gyllideb – Hyrwyddwr Coginio Cymunedol;<br>**Caffael cyhoeddus:** Tîm caffael arweiniol yn rheoli'r fframwaith caffael cenedlaethol, gan ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn manylebau a monitro. Polisi gwerth cymdeithasol y Cyngor a monitro yn gysylltiedig â'r 7 nod llesiant. Hefyd yn rhan o'r rhaglen gydweithredol Bwyd o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru |
| **Casnewydd** | **Trefniadau llywodraethu:** Mae gan y grŵp llywio gynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol |
| **Castell-nedd Port Talbot** | **Tyfu bwyd yn y gymuned:** defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Cronfa Tyfu Bwyd yn y Gymuned |
| **Ceredigion** | **Cynllun grantiau bach:** wedi'i weinyddu gan y bartneriaeth, cefnogodd y cynllun 14 o brosiectau cydweithredol, e.e. prosiectau bwyd cymunedol yn gweithio gyda Dechrau'n Deg a deietegwyr y GIG i gyflwyno dosbarthiadau coginio bwyd iach. |
| **Conwy** | **Caffael cyhoeddus:** Rhan o'r prosiect cydweithredol Bwyd o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru, sy'n anelu at gynyddu maint ac ystod y cynnyrch o Gymru yn y system caffael bwyd ysgol<br>**Asedau cyhoeddus:** Ymchwilio i'r potensial i gynyddu'r tir sydd ar gael ar gyfer tyfu bwyd, gyda ffocws ar adeiladau/gwasanaethau/cyfleusterau hamdden sy'n eiddo i'r Cyngor. |
| **Gwynedd** | **Caffael cyhoeddus:** Rhan o'r prosiect cydweithredol Bwyd o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru, sy'n anelu at gynyddu maint ac ystod y cynnyrch o Gymru yn y system caffael bwyd ysgol, gan adeiladu ar y gwaith blaenorol yn y maes hwn. |

| | |
|---|---|
| | **Caffael cyhoeddus:** sgyrsiau rhagweithiol gyda chyflenwyr i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â defnyddio cadwyni cyflenwi lleol i gaffael bwyd. Defnyddio offeryn gwerth cymdeithasol TOMs a gwahaniaethu'r diffiniadau yn seiliedig ar gynhyrchion. |
| **Merthyr Tudful** | **Ymchwil:** comisiynu ymchwil i ddiffyg diogeledd bwyd a bwyd fforddiadwy |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | Caffael cyhoeddus: Nod Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yw cynyddu % y bwyd lleol yn ei system caffael bwyd ysgol drwy ei gynnwys yn y fanyleb graidd drwy fesurau gwerth cymdeithasol |
| **Powys** | **Asedau cyhoeddus:** adolygu ystâd fferm i'w gwneud yn hygyrch ar gyfer garddwriaeth ar raddfa fach<br>**Bwyta'n iach:** lansio Ymgyrch "Bwyta'n Gall, Arbed Arian" mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a phartneriaeth bwyd lleol.<br>**Caffael cyhoeddus:** cymryd rhan mewn peilot caffael lleol drwy Hyb Bwyd Powys<br>**Bwyta'n iach:** cyflwyno cyrsiau "Sgiliau Maeth am Oes" i aelodau'r gymuned gyda phartneriaeth bwyd a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. |
| **Rhondda Cynon Taf** | **Diogeledd bwyd:** Dosbarthu Grantiau Cymunedol i gefnogi sefydliadau cymunedol i gyflawni prosiectau sy'n ymwneud â bwyd yn lleol<br>**Asedau cyhoeddus:** Mae proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol gadarn ar waith ac yn ddiweddar cefnogodd y prosiect garddwriaethol cymunedol mawr drwy brydlesu tir cyhoeddus am 25 mlynedd.<br>**Caffael cyhoeddus/bwyta'n iach:** Gweithio gyda'r bwrdd iechyd yn eu prosiectau sy'n ymwneud â bwyd megis tyfwyr cymunedol gan gysylltu â gweithgareddau 'Bwyd a Hwyl' yn ystod yr haf |
| **Sir Benfro** | **Trefniadau llywodraethu:** Mae gan y Bartneriaeth gynrychiolaeth o Awdurdod Lleol |
| **Sir Ddinbych** | **Llywodraethu:** Bwrdd Partneriaeth Strategol sefydledig a Grŵp Llywio Gweithredol ar gyfer y partneriaethau bwyd, gan gynnwys timau Awdurdodau Lleol, y bwrdd iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>**Asedau cyhoeddus**: cynyddu'r tir sydd ar gael ar gyfer tyfu bwyd cymunedol yn y Rhyl a Dinbych |
| **Sir Fynwy** | **Caffael cyhoeddus:** Gweithio gyda Maint Cymru ar fwydlen dim datgoedwigo ar gyfer ysgolion Sir Fynwy a hyfforddi athrawon.<br>**Cynhyrchu bwyd:** Sefydlu grŵp trafod a digwyddiadau ffermwyr o'r enw Trafod Adfywio Ffermydd yn Sir Fynwy; sefydlu a chefnogi cynllun mentora amaethyddiaeth adfywiol<br>**Asedau cyhoeddus:** Cefnogi grwpiau cymunedol gyda mynediad i dir ar gyfer tyfu cymunedol<br>**Caffael cyhoeddus:** Rhan o waith Bwyd o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru a Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru (prosiect cydweithredol sy'n cynnwys bwrdd iechyd) sy'n anelu at gynyddu cynnyrch Cymreig wrth gaffael bwyd ysgol<br>**Ymgysylltu â'r gymuned:** Cynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned Cynulliad Bwyd a Coginio a Rhannu |
| **Sir Gaerfyrddin** | **Caffael cyhoeddus**: Datblygu bwydlen 'Cenedlaethau'r Dyfodol' i alinio prydau ysgol â nodau'r Ddeddf Llesiant.<br>**Asedau cyhoeddus:** defnyddio un o ffermydd y cyngor i gynyddu cynhyrchiant bwyd lleol ar gyfer plât cyhoeddus a chefnogi mentrau gwledig (Prosiect Datblygu Systemau Bwyd)<br>**Caffael cyhoeddus:** cymryd rhan mewn peilot hyb caffael bwyd cynaliadwy er mwyn caffael bwyd lleol ar gyfer ysgol gynradd a chartref nyrsio. |
| **Sir y Fflint** | **Caffael cyhoeddus:** Rhan o'r prosiect cydweithredol Bwyd o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru, sy'n anelu at gynyddu maint ac ystod y cynnyrch o Gymru yn y system caffael bwyd ysgol<br>**Asedau cyhoeddus**: gweithio ar y cyd tuag at strategaeth fwyd a nodi tir sydd ar gael ar gyfer tyfu bwyd<br>**Bwyta'n iach/diffyg diogeledd bwyd:** cydweithio â Can Cook/Well-Fed ar fwyd ysgol a bwyd preswyl maethlon sy'n amgylcheddol gynaliadwy |

| | |
|---|---|
| **Torfaen** | **Diogeledd bwyd:** gweinyddu grant Cymorth Bwyd Uniongyrchol<br>**Llywodraethu**: datblygu’r Siarter Fwyd a chynnal Uwchgynhadledd Fwyd ym mis Chwefror 2024<br>**Bwyta'n iach**: mae gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd a Phartneriaethau Bwyd eraill yng Ngwent wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar Dalebau Cychwyn Iach yn Nhorfaen. |
| **Wrecsam** | **Caffael cyhoeddus:** Rhan o'r prosiect cydweithredol Bwyd o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru, sy'n anelu at gynyddu maint ac ystod y cynnyrch o Gymru yn y system caffael bwyd ysgol |
| **Ynys Môn** | **Caffael cyhoeddus:** Rhan o'r prosiect cydweithredol Bwyd o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru, sy'n anelu at gynyddu maint ac ystod y cynnyrch o Gymru yn y system caffael bwyd ysgol<br>**Diffyg diogeledd bwyd/tyfu cymunedol:** Sianelu 'Cyllid Mynd i'r Afael â Thlodi Bwyd a Diffyg Diogeledd Bwyd' Llywodraeth Cymru i greu safleoedd i dyfu cynnyrch lleol er mwyn cyflenwi bwyd i gymunedau |